**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie

Datganiad Polisi y Rhaglen Cartrefi Clyd a'r Gwersi a Ddysgwyd

Diolch am eich llythyr ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd a nodwyd gennym ar 26 Mehefin 2023. Er ein bod yn croesawu eich cyhoeddiad ar 20 Mehefin ar y cyfan, mae ein gallu i ddwyn y llywodraeth i gyfrif yn cael ei rwystro gan ddiffyg manylder ac eglurder o ran amserlenni ar gyfer trosglwyddo i'r cynllun olynol. Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn:

- A fyddech cystal â nodi'r amserlen o ddyddiadau ar gyfer y cerrig milltir allweddol yr ydych yn gweithio tuag atynt o ran caffael y cynllun newydd sy'n ymateb i'r galw. Yn benodol, byddem yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch y dyddiadau targed ar gyfer y camau caffael: mynd allan i dendr; gwerthuso tendrau a dewis y cynigydd a ffefrir; dyfarnu contract; a gweithredu.

- O ran cynllun newydd yn seiliedig ar ardal, a fyddech cystal â nodi amserlen o ddyddiadau ar gyfer y cerrig milltir allweddol yr ydych yn gweithio tuag atynt. Yn benodol, byddem yn croesawu eglurder ynghylch y dyddiadau targed ar gyfer cyhoeddi datganiad polisi rhan 2: mynd allan i dendr; gwerthuso tendrau a dewis y cynigydd a ffefrir; dyfarnu contract; a gweithredu.

- Cyngor i aelwydydd y gaeaf hwn: pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo cyngor am ddim ar arbed ynni i aelwydydd dros yr haf ac i mewn i aeaf heriol 2023-24? A fyddech cystal â nodi manylion am unrhyw sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector yr ydych yn partneru â hwy er mwyn sicrhau bod neges gyson yn cyrraedd cymaint o aelwydydd â phosibl.

- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i gael OFGEM i gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni a phryd y gallwn ddisgwyl i aelwydydd sy'n agored i niwed elwa?

Rydym yn gwerthfawrogi'n llwyr yr angen i gael y cynllun olynol yn iawn. Fodd bynnag, mae'r diffyg brys wrth drosglwyddo i gynllun olynol wedi bod yn rhwystredig, o'i ystyried yn erbyn cefndir o gostau ynni cynyddol. Gobeithiwn felly y gallwch roi'r eglurder a'r sicrwydd yr ydym yn eu ceisio ynghylch yr amserlenni ar gyfer y camau nesaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru